

Datrys yr her ariannu



Oriel Gelf Glyn Vivian, Abertawe: Penseiri Powell Dobson

Datblygu ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau celfyddydol llywodraeth leol

Canllaw fer gan Gyngor Celfyddydau Cymru

Mis Medi 2014



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

“ Nid oes grym mwy er newid yn y byd na phan fo cymuned yn sylweddoli'r hyn sydd wrth fodd ei chalon. ”

Dr Margaret Wheatley, academydd o fri ym maes arweinyddiaeth

“ Dyma ddinas lle rydym yn arbrofi â syniadau newydd a phrofi ffyrdd newydd o weithredu. Yn fuan bydd y ddinas arbrol hon yn brif ddinas greadigol Prydain.”

George Ferguson, Maer Bryste

Ar gyfer pwy mae'r cyfarwyddyd hwn?

Mae'r nodyn cyfarwyddyd hwn ar gyfer aelodau a swyddogion o'r awdurdodau lleol.

Mae'n bosibl ichi fod yn llawn angerdd am y celfyddydau ond ar yr un pryd yn pryderu am sut y gallwch gynnal gweithgarwch ar adeg yr holl doriadau hyn yn y gyllideb. Ar y llaw arall mae'n bosibl nad ydych yn argyhoeddedig o'r manteision o fuddsoddi yn y celfyddydau ond yn fodlon ystyried y dystiolaeth.

Ni waeth beth yw'ch barn, gobeithio y bydd y nodyn cyfarwyddyd hwn yn gymorth ichi.

Rydym am eich ysbrydoli i feddwl am y buddion y gall y celfyddydau eu darparu i'ch cymuned, a'r swyddogaeth arweiniol y gallwch chi ei chwarae wrth gynorthwyo'r broses o wella ansawdd bywyd a lles eich cyd-ddinasyddion.

Mae'r nodyn hwn yn disgrifio'n fyr ac yn fachog rai o'r dadleuon o blaid buddsoddi yn y celfyddydau. Mae hefyd yn eich cyfeirio at wybodaeth a chynghor ymarferol a fydd yn fodd ichi ystyried ffyrdd o ddarparu gwasanaeth celfyddydol yn eich ardal sy'n effeithiol o ran cost.

Ond cyn inni ddechrau arni -

dychmygwch -

Dychmygwch Gymru.

Ac wedi gwneud hynny - ei gweld hi, ei chlywed, ei mwynhau, darllen amdani, morio ynddi - rhowch gynnig ar feddwl am ein gwlad heb gân, heb y gair llafar ar y llwyfan na'r sgrin, heb na barddoniaeth na nofelau, na dawnys na cherfluniau na cherameg na lluniau na delweddau, na'r holl draddodiadau byw sy'n gwneud ein diwylliant cyfoes mor egniol.

O ran ffaith foel, yn ogystal ag yn ein dychymyg, nid oes Cymru ddynol heb Gelfyddyd. Yn yr un fodd nid oes Treftadaeth i'w throsglwyddo o genhedlaeth i genhedlaeth heb Greadigrwydd. Mae Creadigrwydd yn meithrin a chynnal ansawdd ein bywyd. Mae'r Celfyddydau yn cynnig mwynhad, cyffro ac ysbrydoliaeth. Mae'r pethau hyn o bwys.

Yr achos o blaid y celfyddydau

Mae'r celfyddydau yn goleuo ein bywyd ac yn bywiogi'r ystod eang o strategaethau sy'n cynnal bywyd cyhoeddus. Mae'r agweddau hyn yn cynnwys y celfyddydau ac iechyd, twristiaeth ddiwylliannol, celfyddyd gyhoeddus, adfywio canol ein trefi. Yn hyn oll mae'r celfyddydau yn gwneud ein bywydau beunyddiol yn ystyrllon, yn ddilys ac yn ddedwydd. Mae'r celfyddydau yn cynnal a chreu swyddi, yn cyfoethogi gwasanaethau addysg, yn dod â phobl at ei gilydd ac yn gwella ansawdd ein bywyd ar y cyd.

Mae gan y celfyddydau hefyd werth economaidd pwysig.

Mae'r celfyddydau yn rhan o sector creadigol ehangach sy'n bwerdy hanfodol i'n heconomi ledled Prydain. Mae'r sector – un o'r sectorau cyflymaf ei dwf ym Mhrydain – yn cyfrannu'n uniongyrchol o ran creu swyddi a chyfoeth drwy wneud, dosbarthu a masnachu nwyddau a gwasanaethau. Mae'r sector yng Nghymru yn darparu cyflogaeth ar gyfer rhagor na 30,000 o bobl mewn 4,200 o fusnesau gweithredol gan gynhyrchu tua £1.8 biliwn o ran trosiant blynyddol.ⁱ

Mae rhannau o'r diwydiannau creadigol yn atyniadau pwysig gan gynyddu twristiaeth, sbarduno'r galw am gludiant, llety, arlwyo a masnach arall sy'n gysylltiedig â thwristiaeth. Maent hefyd yn fodd i osod cenhedloedd Prydain ar ganol llwyfan y byd gan godi eu proffil dros y byd. Roedd £146 miliwn wedi'u gwario yng Nghymru yn 2011 ar wyliau lle mai prif weithgarwch y gwyliau hynny oedd treftadaeth a diwylliant.ⁱⁱ

Un o nodweddion pennaf ein hamser yw'r ffordd y mae diwylliant yn gallu mynd yn gatalydd adfywio. Caiff cyfleusterau diwylliannol unrhyw ardal ddylanwad cryf ar bobl fusnes wrth iddynt ystyried lle dylent leoli eu cwmnïau. Nid yw'n syndod yn y byd fod penderfynwyr busnes yn cymryd ansawdd bywyd o ddifrif wrth ystyried ymgartrefu o'r newydd a chartrefu eu teuluoedd a'u gweithwyr.

Ond os yw ein heconomi i ffynnu, nawr yw'r amser yn bendant i fuddsoddi yng nghyfalaf creadigol unigol ein pobl ifainc a datgloi eu dychymyg, eu gweledigaeth a'u posibiliadau. Mae lles economaidd y wlad yn dibynnu ar y buddsoddiad hwn. Hebdo rydym mewn perygl o fynd yn gymdeithas farwaidd - o ran ein heconomi, ein creadigrwydd a'n dychymyg.

Yn ystod y rhan fwyaf o'r degawd diwethaf roedd Prydain yn ffeilio tua 50,000 o freinlenni llwyddiannus newydd bob blwyddyn – ond yn Siapan roedd nifer y patentau hyn yn nes at 500,000.ⁱⁱⁱ Felly mae gennym dasg anferth o'n blaen - meithrin arloesedd, hyblygrwydd a meddwl ochrol. Dyma'r rheswm am bwysigrwydd yr hyn sy'n digwydd yn ein hysgolion, ein colegau a'n prifysgolion.

O'n blynyddoedd cynharaf, rydym yn dechrau chwarae. Chwarae yw ymwneud â champau cyntaf creadigrwydd ac arbrofi. Mae'n daith sy'n gallu trawsnewid y ffordd mae plant a phobl ifainc yn dysgu ac archwilio'r byd o'u cwmpas. Mae'n gallu newid sut y maent yn eu gweld eu hunain - ac effeithio ar eu breuddwydion am y dyfodol hyd yn oed - yn ogystal â'u cynorthwyo i ddatblygu sgiliau byw y bydd yn hanfodol iddynt yn y blynyddoedd o'u blaen.

Mae'r celfyddydau yn gallu bod o gymorth i ddatblygu gallu person ifanc i gwestiynu a chysylltu pethau gan gynyddu'r gallu i feddwl yn annibynnol ac yn feirniadol. Bydd y celfyddydau yn gallu ysbrydoli pobl ifainc gydag uchelgais a hyder newydd, gan herio diffyg uchelgais a thorri'r cylch dieflig o amddifadedd sy'n cael ei achosi gan dangyflawni addysgiadol. Gall y celfyddydau ddarparu'r ffordd i fynd ymlaen i addysg uwch a phellach ac ar ddiwedd y dydd gael swydd.

Mae'r celfyddydau yng Nghymru yn hynod o boblogaidd. Roedd 75% o oedolion Cymru wedi mynychu'r celfyddydau yn 2013 a bron 85% o blant wedi cymryd rhan mewn rhyw weithgarwch celfyddydol.^{iv} Mae cymryd rhan yn y celfyddydau yn gallu ennyn llawer iawn o falchder a hyder yn eu cymunedau lleol eu hunain. Mae dechrau ymwneud â'r celfyddydau yn gallu cynyddu gwytnwch cymuned gan roi iddi lais a chyfrannu mewn ffyrdd diriaethol at iechyd a lles y gymuned honno.

Mynd i'r afael â'r toriadau ariannu

Mae toriadau ym maes gwariant cyhoeddus yn dod cyn amled â'r cenillysg ac o bob cyfeiriad.

Mae Llywodraeth Cymru yn lleihau lefel ei hariannu ac mae incwm y Loteri Genedlaethol yn graddol ddisgyn hefyd. Mae Llywodraeth genedlaethol a lleol yn ceisio mynd i'r afael â'r bwlch cynyddol rhwng disgwyliau'r cyhoedd a'r posibilïadau ymarferol gyda'r arian sydd ar gael. Mae nawdd masnachol yn mynd yn anos i'w gael ac mae gwerth y bunt yn ein poced yn gostwng fel y mae pwysau economaidd yn dechrau effeithio ar bob un ohonom.

Gwyddom o'r gorau fod Gweinidogion y Llywodraeth a chynghorwyr yr awdurdodau lleol yn pryderu am y materion sy'n effeithio ar ansawdd bywyd eu hetholwyr. Ond mae Llywodraeth, yn enwedig Llywodraeth leol, rhwng dau ddewis anodd: ei chyfrifoldebau statudol (megis iechyd, y gwasanaethau cymdeithasol ac addysg) a'r meysydd eraill (sy'n cynnwys y celfyddydau) lle mae gwario'n fater o ddewis.

Pwy a fyddai'n gynghorydd awdurdod lleol pan fo'r pwysau mor drwm a'r enillion mor brin? Ond bydd yn rhaid i benderfynwyr weithredu'n ddoeth ac yn ddewr os byddant yn gwasanaethu'r cyhoedd hyd eithaf eu gallu. Bydd yn rhaid i gymunedau – ac yn fwy penodol chi, arweinwyr y cymunedau hynny – benderfynu pa fath o gymdeithas yr hoffech ei gael a pha mor bell yr ydych yn fodlon mynd i wireddu'r fath gymdeithas. Os hoffech fyw

mewn cymuned fywiog, ddeinamig, agored ei meddwl ac yn barod i feithrin a chyfoethogi bywyd, bydd yn rhaid ichi weithredu i symud eich cymuned yn nes at y nod hwn.

Dod o hyd i atebion cynaliadwy newydd

Nid oes neb sy'n bychanu'r anhawster o ddod o hyd i atebion newydd i'r her ariannol yr ydym ar hyn o bryd yn ei hwynebu. Mae'n bwysig ein bod yn canolbwyntio nid yn unig ar y problemau a'r anghenion cyfredol ond hefyd ar y manteision a ddaw o'r asedau a'r cyfleoedd sydd gennym yng Nghymru. Ac ym marn pawb mae celfyddydau Cymru yn ased anferthol ei faint.

Nod y wybodaeth yn yr atodiadau sy'n dilyn yw darparu cymorth a gwybodaeth i benderfynwyr ym maes ariannu diwylliannol. Gobeithiwn y bydd y gwahanol fodelau sy'n cael eu nodi'n sbarduno trafodaeth feirniadol a syniadau newydd.

Mae pob un ohonom am gael Cymru deg, ffyniannus a hyderus. Bydd y sefyllfa hon yn gwella ansawdd bywyd pobl Cymru ym mhob un o'i chymunedau. Mae'r Celfyddydau yn cefnogi hyn. Ac os byddwn yn caniatáu'r fath sefyllfa, gallai'r Celfyddydau fod yn dywysydd, yn sylwebydd, yn feirniad, yn lladmerydd, yn arweinydd - oherwydd dyna sut y mae diwylliant yn gweithio.

A ydych am wybod rhagor?

Gan ddefnyddio ein cysylltiadau a'n rhwydweithiau, byddwn yn rhannu syniadau a gwybodaeth ddefnyddiol. Os hoffech fod yn rhan o'r broses hon o rannu gwybodaeth, rhowch eich manylion cyswllt inni a byddwn yn eich cynnwys ar ein rhestr bostio.

Fel arall, os hoffech gwrrdd â ni i drafod materion penodol yn eich ardal, byddwn yn falch i glywed oddi wrthyh.

Cysylltwch â:
Siân Tomos
Cyfarwyddwr Menter ac Adfywio
Cyngor Celfyddydau Cymru
sian.tomos@celfcymru.org.uk

Atodiad 1 :
Pecyn Gwybodaeth: Eiriolaeth

Sut i ddangos manteision buddsoddiad cyhoeddus yn y celfyddydau



Dawns Genedlaethol Ieuencid Cymru (llun John Collingswood)



Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government



Supported by
The National Lottery®


Cefnogwyd gan
Y Loteri Genedlaethol

Pam buddsoddi yn y celfyddydau?

Bwriad y cyflwyniad hwn yw helpu'ch sefydliad i ddangos manteision buddsoddi cyllid cyhoeddus yn y celfyddydau.

Gallwch ddefnyddio'r wybodaeth ar y tudalennau hyn:

- i gysylltu â'ch AC/AS i esbonio pam fod buddsoddi yn y celfyddydau yn hanfodol, a sut y mae hyn yn berthnasol i'ch sefydliad chi
- i ddweud wrth eich budd-ddeiliaid a'ch dilynwyr ar rwydweithiau cymdeithasol pam fod angen i ni fuddsoddi yn y celfyddydau, a'u hannog nhw i bledio'r achos i'w AC/ASau
- i ddiweddarau eich gwefan gyda chynnwys ar fanteision buddsoddi yn y celfyddydau
- i gynnwys negeseuon allweddol ar fuddsoddi yn y celfyddydau ar eich datganiadau i'r wasg ac mewn unrhyw weithgarwch yn y cyfryngau



*Ffenestri ar Gymru, Julia Griffiths-Jones, Canolfan Grefft Rhuthun
(llun: trwy garedigrwydd yr artist)*


Ein stori ni: mae'r celfyddydau werth bob ceiniog

Gallwch ddefnyddio ac addasu'r negeseuon hyn ar bob cyfle posib:

- mae sector diwylliannol Cymru'n ffynnu
- gyda'n gilydd, rydym ni wedi creu gwaith o safon rhyngwladol, sefydliadau blaenllaw a rhaglenni addysg o ansawdd
- mae achlysuron diwylliannol yn tynnu cymunedau ynghyd ac yn cyfoethogi'n bywydau
- mae'r sector diwylliannol yn creu twf economaidd a swyddi: hi yw un o'r sectorau sy'n tyfu gyflymaf yn yr economi
- mae parhad cyllid cyhoeddus yn hanfodol i'r sector cyfan, gan roi hyder i noddwyr a buddsoddwyr preifat



Georgia Ruth, ar lwyfan Gorwelion yn WOMEX 13
(llun: Yannis Psathas)



Mae gan y sector yng Nghymru weithlu â chymwysterau gwyb, gyda 68% â chymhwyster sy'n gydradd â gradd

Mae'r sector creadigol a diwylliannol yn cefnogi 1,840 o fusnesau yng Nghymru gan ychwanegu £1biliwn mewn gwerth ychwanegol gros i'r economi



CYFLOGAETH YN Y CELFYDDYDAU

Mae'r Celfyddydau yn rhan hanfodol o'n llwyddiant economaidd ac yn creu cyflogaeth uchel ei gwerth

www.cyngorcelfyddydaucymru.org.uk



Mae'r diwydiannau creadigol yng Nghymru yn cyflogi mwy na **30,000** o weithwyr



Yn 2013/14 roedd sefydliadau sy'n cael arian refeniw gan Gyngor Celfyddydau Cymru yn cyflogi

5,242
o weithwyr



Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Rhestrir y ffynonellau ar www.cyngorcelfyddydaucymru.org.uk/eiriolaeth

Yn 2011 cafodd **£146 miliwn** eu gwario ar wyliau lle mai diwylliant a threftadaeth oedd prif nod y gwyliau hynny

Mae gan Gymru ddiwydiant cerdd amrywiol a chyffrous ac mae wedi cynhyrchu bandiau a chantorion o fri megis Manic Street Preachers, Stereophonics, Duffy, Tom Jones, Funeral for a Friend, Super Furry Animals, Catatonia, Bryn Terfel, John Cale a The Automatic



ECONOMI'R CELFYDDYDAU

Mae celfyddydau Cymru yn cynrychioli creadigrwydd ar lefel sy'n cystadlu'n hyderus ar lwyfan y byd; mae'n allforyn gwerthfawr iawn ac yn denu twristiaid i'n gwlad

www.cyngorcelfyddydaucymru.org.uk



Mae dros 4,200 o fusnesau a mentrau gweithredol sy'n cynhyrchu dros **£1.8 biliwn** o drosiant blynyddol



Rhestrir y ffynonellau ar www.cyngorcelfyddydaucymru.org.uk/eiriolaeth

Cynhyrchwyd

£50
miliwn

o incwm a enillwyd gan sefydliadau sy'n cael arian refeniw yn 2013/14



Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales


Yn 2013/14 cafodd

45,000

o sesiynau ymgyfranogol eu cynnal gan ein sefydliadau sy'n cael arian referniw a oedd yn targedu plant a phobl ifainc




Yn 2013 roedd **tri chwarter** oedolion Cymru wedi mynychu o leiaf un digwyddiad celfyddydol



CYNULLEIDFA'R CELFYDDYDAU

Mae profiadau celfyddydol yn cyfoethogi ein bywydau a chryfhau ac yn gwneud ein gymunedau yn fwy gwydn

www.cyngorcelfyddydaucymru.org.uk



Yn 2013/14 roedd **3,822,000** wedi mynychu digwyddiad celfyddydol gan un o'n sefydliadau sy'n cael arian referniw


Yn 2013 roedd **84.3%** o blant a phobl ifainc wedi ymgyfranogi mewn digwyddiad celfyddydol



 Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Rhestrir y ffynonellau ar www.cyngorcelfyddydaucymru.org.uk/eiriolaeth

Rhwng Ebrill 2010 a Mawrth 2015, amcangyfrifwn y byddwn yn buddsoddi **£171 miliwn** o arian y cyhoedd oddi wrth y llywodraeth a **£82 miliwn** oddi wrth y Loteri Genedlaethol yn y celfyddydau a diwylliant i greu profiadau ar gyfer cynifer o bobl â phosibl ledled Cymru



Dim ond **32c** yr wythnos yw cost celfyddydau Cymru i bob person

BUDDSODDI YN Y CELFYDDYDAU

Mae sector y celfyddydau yn buddsoddi mewn creadigrwydd a thwf ac yn destun balchder i Gymru

www.cyngorcelfyddydaucymru.org.uk



Mae ariannu'r celfyddydau

yn llai na 0.23%

o gyfanswm gwariant y llywodraeth

Yn 2014/15

£51 miliwn

fydd cyfanswm y buddsoddiad (gan gynnwys arian y Loteri). Mae hyn yn cyfateb â £17 y pen neu, o rannu'r swm yn ôl yr wythnosau yn y flwyddyn honno, £1 miliwn yr wythnos



 Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Rhestrir y ffynonellau ar www.cyngorcelfyddydaucymru.org.uk/eiriolaeth

5 peth syml y gall sefydliadau eu gwneud

Mae gennym ni i gyd rôl i'w chwarae er mwyn dangos pa mor werthfawr yw'r buddsoddiad yn y celfyddydau, felly dyma ambell i beth ymarferol y gallwch chi eu gwneud i helpu:

- creu tudalen amlwg ar eich gwefan gan ddefnyddio'r pwyntiau bwled 'pam fod y celfyddydau werth bob ceiniog' a dolen i <http://www.cyngorcelfyddydaucymru.org.uk/yr-hyn-a-wnawn>
- crynhowch ffeithiau, ffigurau a dyfyniadau sy'n dangos effaith eich gwaith
- dywedwch wrth eich rhwydweithiau cymdeithasol am werth buddsoddi cyllid cyhoeddus yn y celfyddydau, ac anogwch nhw i rannu'ch negeseuon
- anogwch eich budd-ddeiliaid i bledio achos buddsoddiad cyhoeddus i wleidyddion lleol a chenedlaethol
- sicrhewch eich bod chi'n brandio'ch gwaith â logo Cyngor Celfyddydau Cymru, fel bod pawb yn gwybod bod cyllid cyhoeddus wedi cyfrannu ato



BIANCO, NoFit State
(llun: Richard Davenport)

5 peth syml y gall artistiaid eu gwneud

- os ydych chi'n gweithio gyda sefydliadau, holwch a oes unrhyw weithgarwch eiriolaeth y gallech gynorthwyo ag ef
- chwiliwch am gyfleoedd yn eich gweithgareddau hyrwyddo eich hun i drafod sut y cynorthwyodd buddsoddiad cyhoeddus yn y celfyddydau eich gyrfa artistig chi
- ysgrifennwch lythyr neu neges e-bost at eich AC/AS i ddweud pam ei bod hi mor bwysig buddsoddi yn y celfyddydau, gan ddweud sut rydych chi a'ch cymuned wedi elwa o fuddsoddiad cyhoeddus
- defnyddiwch eich rhwydweithiau proffesiynol a chymdeithasol i ddweud wrth eich cynulleidfa pam fod y celfyddydau werth bob ceiniog
- os oes gwefan gennych, dylech gynnwys dolen i'r dudalen briodol ar wefan gyhoeddus Cyngor y Celfyddydau <http://www.cyngorcelfyddydau.cymru.org.uk/yr-hyn-a-wnawn>



Y Sioe Sirol, Duncan Ayescough a Catrin Howell
(llun: trwy garedigrwydd Oriol Myrddin)

Crëwch dudalen gwe gwerth cyhoeddus

Rhowch wybodaeth am fuddsoddiad cyhoeddus yn y celfyddydau ar eich gwefan

- cyfeiriwch eich ymwelwyr, cefnogwyr a'ch dilynwyr trwy'r cyfryngau cymdeithasol i'r dudalen er mwyn eu cynorthwyo i ddeall pam fod buddsoddiad cyhoeddus yn y celfyddydau werth bob ceiniog
- esboniwch sut mae'ch gwaith yn cyfrannu at adeiladu cymunedau, yr economi leol, dangos y gorau o Gymru, hybu twristiaeth, cynorthwyo addysg a chreu swyddi
- dangoswch sut mae'ch gwaith yn cynorthwyo plant a phobl ifanc
- rhowch esiamplau o lwyddiannau artistig allweddol, ffigurau cynulleidfaoedd ac ati



Creu tudalen gwe gwerth cyhoeddus

- cofiwch gynnwys dyfyniadau gan ymwelwyr, athrawon ac arweinwyr busnes lleol
- byddwch yn bositif - dathlwch beth y gallwch ei gyflawni gyda chyllid cyhoeddus
- dangoswch logo Cyngor Celfyddydau Cymru, gyda dolen i'r dudalen gwe gyhoeddus berthnasol
<http://www.cyngorcelfyddydaucymru.org.uk/yr-hyn-a-wnawn>



Chwarae'r Chwedl, Ysgolion Cynradd Powys, Arts Connection - Cyswllt Celf
(llun: Arts Connection - Cyswllt Celf)

Sut i gysylltu â'ch AC/AS lleol

- Gallwch ganfod pwy yw'r ACau ar gyfer eich ardal trwy fynd i wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru sef www.cynulliadcymru.org neu trwy fynd i www.writetothem.com
- Gallwch ganfod pwy yw'ch AS trwy fynd i wefan Senedd San Steffan sef www.parliament.uk neu trwy fynd i www.writetothem.com
- ymchwiliwch i ddiddordebau eich AC/AS
- defnyddiwch ddull o weithredu sy'n berthnasol i etholaeth yr AC/AS – os yw'ch cylch gwaith yn cwmpasu dinas, tref neu ardal gyfan, yna hwyrach ei bod yn fwy priodol gofyn i rywun sy'n byw yn etholaeth yr AC/AS gysylltu â nhw'n gyntaf.



Likely Story, Penarth, Noson Allan
(llun: Betina Skovbro)

Datblygu'r berthynas â'ch AC/AS

- gwahoddwch eich AC/AS i ddod i weld gwaith eich sefydliad, wedyn gwahoddwch nhw'n gyson i nosweithiau agoriadol, achlysuron lansio ac achlysuron eraill
- os bydd yr aelod yn derbyn eich gwahoddiad, awgrymwch eich bod chi'n trefnu bod y cyfryngau lleol yn dod i dynnu lluniau
- darparwch ddiweddariadau rheolaidd am waith eich sefydliad, er enghraifft trwy ddatganiadau i'r wasg a'ch sianeli rhwydweithio cymdeithasol – cofiwch gynnwys ffeithiau allweddol, ffigurau a dyfyniadau sy'n dangos effaith eich gwaith




Cerddorfa Genedlaethol Ieuencid Cymru, Cadeirlan Tyddewi
(llun: trwy garedigrwydd Celfyddydau Genedlaethol Ieuencid Cymru)

Gweithio gyda'r cyfryngau

Mae cyhoeddi stori berthnasol yn y cyfryngau'n gallu helpu i gyfleu negeseuon am fuddsoddiad yn y celfyddydau i AC/ASau, awdurdodau lleol a budd-ddeiliaid eraill:

- rhowch wybodaeth amlwg ar ddiwedd eich datganiadau i'r wasg sy'n dangos canlyniadau positif buddsoddiad cyhoeddus
- mae'n bosibl y bydd tîm cyfathrebu Cyngor Celfyddydau Cymru'n gallu darparu dyfyniad ar gyfer eich datganiad i'r wasg
- mae darparu arweinwyr neu artistiaid o'ch sefydliad fel llefarwyr yn cryfhau eich neges ar lefel ranbarthol a chenedlaethol; mae llefarydd da yn gallu helpu i gael eich stori yn y newyddion
- gwirfoddolwch eich llefarwyr i gymryd rhan mewn sioeau trafod ar orsafoedd radio



Y Lolfa Lên/Literature Lounge, Llenyddiaeth Cymru
(llun: Richard Outram)

Gweithio gyda'r cyfryngau

- gallai cydweithio â sefydliadau eraill ym maes y celfyddydau ategu'ch neges a gwneud y stori'n fwy o newyddion
- mae llythrau gan aelodau o'r gynulleidfa, cyfeillion a gwirfoddolwyr yn gallu cadw'ch stori yn y newyddion a dangos i olygyddion papur newydd ble mae diddordebau'r darllenwyr
- mae llun da neu gyfle i ffilmio'n helpu i ddenu sylw at eich stori



Things I Forgot I Remembered, National Theatre Wales a Hoipolloi gyda'r artist Hugh Hughes, Preswylfa Môn (llun: Farrow's Creative)

Agenda'r Llywodraeth

Mae'n bwysig cofio sut mae'r celfyddydau yn hyrwyddo amcanion ehangach gwleidyddion lleol a chenedlaethol:

- tynnu cymunedau ynghyd
- gyrru twf economaidd
- dangos y gorau o Gymru ar lwyfan ryngwladol, a hybu twristiaeth
- cefnogi addysg
- meithrin dawn ar gyfer y diwydiannau creadigol
- creu swyddi

A allwch chi ddangos sut mae eich sefydliad wedi cyfrannu at y rhain?



Gawn ni weld..., Mobeil Stiwdio gan Maleonn Ma, Oriol Mission, Arddangosfa Oddi ar y Safle Glynn Vivian (llun: gan Matthew Otten)

Cofiwch:-

Y cyfan drwy'r celfyddydau - dadleuwch
yr achos



Bodies in Urban Spaces, Abertawe (llun: Warren Orchard)



Y Cyfan drwy'r Celfyddydau - Dadlau'r Achos

Bodies in Urban Spaces, Abertawe (llun: Warren Orchard)

Y Cyfan drwy'r Celfyddydau - CREU

Canolfan weithgar yw **Mwldan** yn Aberteifi, ac mae'n cyflwyno ac yn cynhyrchu'r celfyddydau wrth galon cefn gwlad prydferth y gorllewin.

Diolch i'w ymroddiad i arloesi, gweledigaeth a rhagoriaeth, mae gan Mwldan ran bwysig i'w chwarae wrth gyfrannu at adfywiad economaidd, cymdeithasol a diwylliannol Ceredigion a'r cylch. Wrth galon Mwldan mae'r gred y gall y celfyddydau ddarparu profiadau sy'n newid ac yn cyfoethogi bywydau pobl, sydd â'r pŵer i newid cysyniadau a chynyddu goddefgarwch, chwalu rhwystrau diwylliannol, a hwyluso gwell dealltwriaeth - sydd yr un mor berthnasol i'r gymuned lle rydym ni'n byw ac i'r blaned rydym ni'n byw arni. Mae'r weledigaeth hon wrth galon Mwldan a'i holl weithgareddau. Yn ystod y pum mlynedd diwethaf yn unig, mae dros 100,000 o bobl wedi gweld gwaith sydd wedi cael ei gynhyrchu ac wedi bod ar daith gyda Mwldan, sy'n golygu ei bod gyda chanolfannau cynhyrchu mwyaf toreithiog Cymru.

Prosiect ymchwil a datblygu yw **UCAN Go** a'i nod yw dod o hyd i ddulliau newydd o wneud lleoliadau'r celfyddydau'n fwy hygyrch i bobl â nam ar eu golwg.

Cafodd UCAN Productions a chwmni technoleg o'r enw Calvium, gyllid i ddatblygu ap symudol sy'n darparu map sain o ganolfan celfyddydau ar gyfer aelodau o'r gynulleidfa trwy'r Gronfa Ymchwil a Datblygu Digidol i'r Celfyddydau yng Nghymru, sy'n gronfa ar y cyd rhwng Nesta, Cyngor Celfyddydau Cymru a Chyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau. Mae hyn yn galluogi cynulleidfaoedd â namau ar eu golwg i fod yn fwy annibynnol wrth ymweld â sefydliadau'r celfyddydau.

Drwy greu yn dda, byddwn yn ysbrydoli.

Ein strategaeth ar gyfer Creadigrwydd a'r Celfyddydau yng Nghymru

Cadwch y sgwrs i fynd: @sgwrsgelf

I mi, y peth sy'n gwneud bywyd yn braf yw cael rhannu'r un diwylliant a'r un cyfeiriadau. Michael Sheen

A feddo gelf a fydd gwâr. Dic Jones

Y Cyfan drwy'r Celfyddydau - CYRRAEDD

Celfyddydau Cymuned Cwm a Bro

Bwriedir i'w prosiectau fod yn gynhwysol ac yn agored i bawb sydd am gymryd rhan. Maen nhw'n gweithio gyda phobl a chymunedau ar lefel leol, cenedlaethol a rhyngwladol, gan gysylltu pobl trwy greadigrwydd. Yn benodol, maent yn darparu cyfleoedd i bobl a allai fod yn agored i niwed, mewn perygl neu'n brin o hunanhyder gymryd rhan mewn cymuned greadigol a phrosiectau'r celfyddydau. Maent am ddatgloi potensial y bobl hyn ac am helpu i newid eu bywydau, gan greu cyfleoedd ar gyfer newid trwy'r broses greadigol.

**Cyrraedd yw cyffwrdd,
ymgysylltu, cyfarfod.**

Ein strategaeth ar gyfer Creadigrwydd a'r Celfyddydau yng Nghymru

Corneli Cudd 2, Pontio

Ym mis Tachwedd 2013, treuliodd y cerddor amryddawn Manon Llwyd fis cyfan yng nghartref gofal Plas Hedd a chartref nyrsio Brynllifon ym Mangor, gan fynd â cherddoriaeth i bob twll a chornel.

Corneli Cudd 2 yw ail brosiect cymunedol preswyl Pontio, yn dilyn prosiect peilot y llynedd. Y tro hwn, rhannodd Manon y profiad 16 o bobl ifanc o Ysgol Tryfan. Bu Dr Gwawr Ifanc yn ymchwilio i effaith y cyfnod preswyl ar y bobl ifanc trwy gydol y prosiect.

**Nid mater o sicrhau
dulliau neu foddau
eraill o fyw yw
celfyddyd, ond
bywyd ei hun.**

**Hi yw rhodd
gorffennol cenedl
i gymdeithas ei
dyfodol. Does dim
byd sy'n fwy hanfodol
i'r synnwyr o Gymru
ei hun.**

Prof. Dai Smith

Cadwch y sgwrs i fynd: @sgwrsgeif

Y Cyfan drwy'r Celfyddydau - **CYNNAL**

Galeri, Caernarfon

Sefydlwyd Canolfan Mentrau Creadigol Galeri Caernarfon yn 2005 ar gost o £7.5m. Crëwyd Galeri mewn ymateb i dwf mewn microfusnesau yn niwydiannau creadigol y rhanbarth. Y nod oedd creu hyb canolog ar gyfer cwmnïau lleol ac artistiaid unigol, er mwyn manteisio ar eu potensial trwy glystyru. Hoffai Galeri ddarparu sylfaen hefyd er mwyn i'r Ymddiriedolaeth ymestyn ei brosiectau creadigol ymhellach i'r gymuned leol.

Mae Galeri yn cyfrannu bron i £2.5 miliwn at economi Gwynedd ac Ynys Môn bob blwyddyn.

Yn nhermau cyflogaeth, mae Galeri yn cynnal dros 50 o swyddi cyfartal ag amser llawn yn economi Gwynedd ac Ynys Môn, yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol, yn ogystal â dros 40 o gyflogeion yn y busnesau tenant.

Rydym yn cynnal er mwyn gwella lles pobl a chymunedau, gan sicrhau gwell ansawdd bywyd heddiw ac yfory ar gyfer ein cenedlaeth ni a'r cenedloedd a ddaw. Ein strategaeth ar gyfer Creadigrwydd a'r Celfyddydau yng Nghymru

Cadwch y sgwrs i fynd: @sgwrsgeif

Chapter, Caerdydd

Ers dros 40 mlynedd, mae Chapter wedi bod wrth galon creadigrwydd yng Nghaerdydd. Canolfan uchelgeisiol ac amlgelfyddyd yw hi sy'n cyflwyno, yn cynhyrchu ac yn hyrwyddo celfyddyd genedlaethol, perfformiadau byw a ffilm, ynghyd â lle cymdeithasu bywiog. Mae'r ganolfan yn croesawu dros 800,000 o ymwelwyr y flwyddyn.

Sefydliad yw Chapter sy'n dathlu gwahaniaethau, sy'n cofleidio'r ffaith fod y cyfoes a'r gymuned, celfyddyd a'r gynulleidfa, yr heriol â'r newydd a'r agored a'r hygyrch yn dod at ei gilydd yno. Mae hyn wedi ei alluogi i weithio gydag artistiaid newydd mewn dulliau newydd, gan ddod yn fwy entrepreneuraid a chefnogi pobl greadigol annibynnol ar lefelau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol. Ond mae yng nghalon ei gymuned hefyd – cymuned o artistiaid, cynulleidfaoedd a phobl leol.

Mae'r celfyddydau ym mhob man ac maent yn rhan bwysig o'n bywydau. Pe na bai yna gelfyddydau, byddem ni i gyd yn dal i fyw'n anwar mewn ogofau

Plentyn 9 oed a gymerodd ran yn yr Adolygiad Celfyddydau mewn Addysg

Atodiad 2: Ffyrdd o ddarparu'r celfyddydau

- **On With The Show –Supporting Local Arts & Culture** - sy'n archwilio i ba raddau y mae awdurdodau lleol yn blaenoriaethu a rhoi gwerth ar y celfyddydau a diwylliant. Mae hefyd yn disgrifio sut y mae cynghorau'n gallu parhau i gefnogi diwylliant gwydn a ffyniannus yn eu hardal drwy ddefnyddio modelau amgen.
http://www.artscouncil.org.uk/media/uploads/pdf/On_with_the_show-Supporting_local_arts_and_culture.pdf
- **Responding to the challenge: alternative delivery models Grant Thornton Ionawr 2014** - dadansoddiad o wahanol fodelau darparu sy'n cael eu defnyddio gan yr Awdurdodau lleol
<http://www.grant-thornton.co.uk/Documents/Alternative-Delivery-Models-LG.pdf>
- **Outside In** – comisiwn gan nalgao (erbyn hyn, AD:UK) yn 2010. Y nod yw rhoi i Swyddogion Celfyddydol yr Awdurdodau Lleol ddealltwriaeth fanwl o'r cyfleoedd a'r materion sydd ynghlwm wrth gcontractio allan wasanaethau celfyddydol yr awdurdodau lleol
[NAL12075OutsideInReportFINAL 6-2-10](http://www.nalgao.gov.uk/Assets/Uploads/2010/06/20100622%20Outside%20In%20Report%20FINAL%206-2-10.pdf)
- **Local authority investment in the arts and the future sustainability of arts services** - dogfen drafod Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru: Bwrdd Strategol y Celfyddydau, Mehefin 2010. Mae hon yn ystyried y sefyllfa ariannol yn 2010 a modelau amgen o ariannu
<http://www.wlga.gov.uk/publications-and-consultation-responses-III/discussion-paper-local-authority-investment-in-the-arts-the-future-sustainability-of-arts-service/>
- **Arolwg o Wariant Celfyddydol yr Awdurdodau Lleol** – sy'n amlygu'r gwariant hyd yn hyn gan Awdurdodau Lleol Cymru ar y celfyddydau ac effaith bosibl y gwariant hwn
<http://www.celfcymru.org.uk/what-we-do/research/annual-surveys/arolwg-o-wariant-awdurdodau-lleol?diablo.lang=cym>
- **Nurture Development: Asset based Community Development**
<http://www.yourewelcome.to/sites/default/files/resource/1064/documents/factsheet-12domainsofpeoplepoweredchange.pdf>
- **Cenhadaeth, Modelau, Arian**
Rhwydwaith a banc o adnoddau sy'n seiliedig ar feddwl systemol ar gyfer gweithwyr proffesiynol ym maes y celfyddydau. Mae ei ddwy raglen ddiweddaraf, **re.volution** a **re.think**, yn canolbwyntio ar adeiladu gwytnwch ymarferwyr a sefydliadau creadigol a gwireddu swyddogaeth arweiniol y celfyddydau a diwylliant wrth fynd i'r afael â'r anawsterau enfawr yr ydym yn eu hwynebu dros y byd.
<http://www.missionmodelsmoney.org.uk/>

Atodiad 3: Cyngor Celfyddydau Cymru a Llywodraeth Leol yng Nghymru

Mae'r Bartneriaeth rhwng Cyngor Celfyddydau Cymru a Llywodraeth leol yn sail i gelfyddydau Cymru. Rhyngom, gallem gyffwrdd â bywyd pawb yng Nghymru. Mae awdurdodau lleol yn cyfrannu eu gwybodaeth leol, eu hystod eang o gyfrifoldebau, eu darpariaeth sy'n canolbwyntio ar y dinesydd a'u cynrychiolaeth ddemocrataidd. Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn dod ag arbenigedd a safbwynt cenedlaethol a rhyngwladol i effeithio ar ymarfer a datblygiad y celfyddydau. Mae Cyngor Celfyddydau Cymru ac awdurdodau lleol yn darparu arian a buddsoddiad sy'n cynnal gweithgarwch creadigol. Mae'n gyfuniad grymus.

Mae'r berthynas rhwng Cyngor Celfyddydau Cymru a'r awdurdodau lleol yn seiliedig ar dri maes:

1. **Yr agwedd genedlaethol** – gweithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Llywodraeth Cymru ar faterion strategol uchel eu -lefel y mae angen arnynt arweinyddiaeth genedlaethol gyson a chydlynus. Gellid cynnwys ymhlith yr enghreifftiau: datblygu polisi ar lefel genedlaethol, Brydeinig a rhyngwladol; Bwrdd Strategol y Celfyddydau; rhwydweithio a digwyddiadau (Aelodau, Cymdeithas Prif Weithredwyr ac Uwch Rheolwyr yr Awdurdodau Lleol, Prif Swyddogion ac yn y blaen); ymchwil a gwybodaeth
2. **Yr agwedd ranbarthol** – gweithio gyda chonsortia neu grwpiau o awdurdodau lleol ar fentrau a phrosiectau cydweithiol sy'n darparu a rhannu adnoddau ac arbenigedd mewn ffordd fwy effeithiol. Wedi'i adeiladu ar egwyddorion o gydweithio, gellid cynnwys ymhlith yr enghreifftiau: cyfrannu at ddatblygu polisi Cyngor Celfyddydau Cymru; cydgynllunio (yn enwedig o amgylch buddsoddi refeniw ac arian cyfalaf); cytundebau gyda'r nod o gynnal sefydliadau neu raglenni gweithgarwch allweddol; blaenoriaethau datblygu a gytunwyd ar y cyd sy'n annog arloesedd a thwf; gwell rhwydweithio â chyrrff eraill yn y sector cyhoeddus
3. **Yr agwedd leol** – cynnal ein perthnasau dwyochrog gydag awdurdodau lleol unigol. Drwy'r berthynas hon byddwn yn sicrhau bod y canlynol ar gael: arbenigedd a gwybodaeth am y celfyddydau; hygyrchedd i arian; ac eiriolaeth ar ran y celfyddydau

Cyfeiriadau

ⁱ Wales.com

http://www.wales.com/en/content/cms/English/Business/Business_Sectors/Creative_Industries_/Creative_Industries_.aspx

ⁱⁱ Cyngor Celfyddydau Cymru – Pecyn Gwybodaeth Eiriolaeth <http://www.artscouncilofwales.org.uk/what-we-do/pecyn-cymorth-eiriolaeth?diablo.lang=cym>

ⁱⁱⁱ Sefydliad Eiddo Deallusol y Byd :http://www.wipo.int/ipstats/en/statistics/country_profile/#U

^{iv} Cyngor Celfyddydau Cymru – Pecyn Gwybodaeth Eiriolaeth <http://www.artscouncilofwales.org.uk/what-we-do/pecyn-cymorth-eiriolaeth?diablo.lang=cym>